Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Pengwern

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r radd yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 23/12/2014**

## Cyd-destun

Mae Coleg Pengwern yn goleg arbenigol annibynnol sy'n darparu addysg ar gyfer hyd at 75 o ddysgwyr 16 i 25 oed ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, anableddau corfforol a chyflyrau ar y sbectrwm awtistig. Mae'r Coleg yn agored am 52 wythnos y flwyddyn, gyda rhaglen addysgol 38 wythnos. Gall dysgwyr gael lleoliadau am hyd at dair blynedd. Ar hyn o bryd, mae 55 o ddysgwyr, ac mae 25 yn mynychu'n ddyddiol. Lleoliadau preswyl sydd gan y gweddill.

Mae'r coleg mewn lleoliad gwledig yn Rhuddlan, Gogledd Cymru, ac o fewn ei amgylchedd 23 erw mae'n cynnal fferm fechan ac ysgol goedwig.

Nod y coleg yw rhoi'r medrau a'r hyder i ddysgwyr y mae eu hangen arnynt i symud i'r cyfnod nesaf yn eu bywydau, p'un a ydynt yn cael swyddi, yn symud tuag at fyw'n annibynnol neu'n mynd ymlaen i astudio ymhellach.

Mae'r cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau gweithredol, galwedigaethol, personol, cyfathrebu a chyflogaeth. Mae dau lwybr: archwilio gwaith ac archwilio annibyniaeth. Mae rhaglen ddysgu unigol gan bob dysgwyr a mynediad at gyrsiau achrededig, dysgu yn y gwaith, rhaglenni gwella cyfathrebu, medrau byw'n annibynnol a gweithgareddau cyfoethogi.

Ym Mai 2014, prynwyd y coleg gan grŵp Cambian oddi wrth Mencap.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yng Ngholeg Pengwern yn dda oherwydd:

- mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da ac yn cyfathrebu'n dda;
- mae pob un o'r dysgwyr yn cwblhau'u rhaglenni dysgu ac yn ennill cymhwyster;
- mae ffocws cadarn gan y coleg ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd;
- mae'r holl addysgu yn dda;
- mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda ac mae'r dysgwyr â'r ymddygiad mwyaf heriol yn gwneud gwelliant sylweddol o ran rheoli eu hymddygiad;
- mae gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol; a
- gwneir defnydd effeithiol iawn o adnoddau a thechnoleg i gynnwys pob dysgwyr ym mhob agwedd ar fywyd y coleg.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae gan y perchennog, arweinwyr a rheolwyr weledigaeth glir iawn ar gyfer y coleg;
- mae dealltwriaeth glir iawn gan arweinwyr a rheolwyr o gryfderau'r coleg a ble mae angen iddo wella;
- darparant gymorth a her ragorol i'r coleg;
- mae'r adroddiad hunanarfarnu o ansawdd da ac mae'n cysylltu'n dda â'r cynllun datblygu ansawdd;
- mae'r coleg wedi gwneud cychwyn da iawn o ran defnyddio data i lywio'r cynllunio ar gyfer gwella;
- mae dull o weithredu fel tîm staff er mwyn gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr; ac
- mae'r perchennog yn parchu ac yn gwerthfawrogi hunaniaeth Gymreig y coleg.

## Argymhellion

A1 Gwella cyflawniad dysgwyr sy'n fechgyn

A2 Ystyried cyflwyno cymwysterau galwedigaethol ar gyfer cyflogaeth benodol

A3 Gwneud yn siŵr bod llythrennedd a rhifedd yn cael eu cynnwys yn adolygiadau dysgwyr bob amser

A4 Canolbwyntio mwy ar asesu ar gyfer dysgu ar draws y coleg

A5 Ehangu ymgynghori â rhanddeiliaid wrth hunanarfarnu

A6 Hyrwyddo'r defnydd o ddata ar draws y coleg er mwyn gwella deilliannau dysgwyr

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i newid ei gynllun datblygu ansawdd cyfredol i ddangos pa gamau y mae'r coleg yn bwriadu'u cymryd mewn ymateb i'r argymhellion. Cynghorir hefyd fod y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i'r holl rieni a gofalwyr yn y coleg.

Bydd Estyn yn monitro'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn yr arolygiad monitro blynyddol nesaf.

Bydd Estyn yn gwahodd y coleg i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Nid oes modd cymharu perfformiad y coleg â chyfartaleddau cenedlaethol, gan nad oes unrhyw ddata meincnod ar gael. Bernir cyrhaeddiad a chyflawniad dysgwyr ar sail dysgwyr unigol.

Fodd bynnag, mae data'r coleg yn dangos, yn 2013-2014, bod pob un o'r dysgwyr wedi cwblhau'u prif raglenni dysgu yn llwyddiannus ac wedi cyflawni eu nod cymhwyster. Cyflawnodd y rhan fwyaf o ddysgwyr y cymhwyster ar eu lefel ddisgwyliedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd priodol tuag at eu targedau dysgu yn unol â'u galluoedd.

Mae dysgwyr mwy abl yn cyflawni cymhwyster perthnasol mewn llythrennedd a rhifedd. Mae dysgwyr ar raglenni medrau anachrededig yn gwella'u llythrennedd a'u rhifedd mewn camau dysgu bach ac mae llawer o ddysgwyr yn cyflawni'u targedau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw targedau dysgwyr ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn ffurfio rhan o adolygiad cynnydd y dysgwr yn gyson. At ei gilydd, mae tueddiadau mewn cynnydd yn dangos bod deilliannau llythrennedd a rhifedd yn erbyn targedau wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf.

Mae llawer o ddysgwyr wedi cyflawni eu targedau datblygiad personol, yn enwedig y rheini ar gyfer medrau cymdeithasol, rhyngweithio â chyfoedion a gwella ymddygiad. Mae deilliannau ar gyfer datblygiad personol yn dangos tuedd o wella dros y tair blynedd diwethaf.

Fodd bynnag, nid yw dysgwyr sy'n fechgyn, ar draws yr holl lefelau gallu, yn cyflawni gystal â dysgwyr sy'n ferched o ran bodloni'u targedau.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyson mewn gwersi. Maent yn deall eu targedau dysgu ac yn hyderus i ddethol eu blaenoriaethau dewisedig. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn cyflawni'r tasgau a osodwyd ar eu cyfer mewn gwersi ac yn cwblhau'r gweithgaredd dysgu yn dda. Mae ychydig o ddysgwyr mwy abl yn gallu cofio dysgu blaenorol yn gywir a disgrifio tasgau y maent wedi'u cwblhau yn flaenorol.

Mae llawer o ddysgwyr mwy abl yn gwneud cynnydd da o ran ehangu eu geirfa ac mae mwyafrif yn siarad yn glir yn unol â'u gallu. Mae dysgwyr llai abl yn datblygu'u cyfathrebu yn dda drwy arwyddion a symbolau a dyfeisiau electronig. Mae llawer o ddysgwyr yn mynegi'r hyn maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi yn rhugl. Gall ychydig o ddysgwyr, o gael dewisiadau, esbonio'r rheswm am eu dewis. Mae llawer o ddysgwyr yn gwrando'n dda yn y dosbarth ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml yn gywir. Datblygant fedrau defnyddiol yn ymwneud â gofal personol, fel trin ewinedd a chwblhau arferion hylendid. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn datblygu'u medrau ysgrifennu yn unol â'u gallu, ac mae ychydig o ddysgwyr yn dangos hyder wrth ddarllen allan i'r dosbarth a chyflwyno'u gwaith i eraill. Mae rhai dysgwyr mwy abl yn trosglwyddo dysgu'n hyderus i sefyllfaoedd newydd.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda mewn camau dysgu bach. Maent yn cyfrif yn rhugl ac mae ychydig yn dangos cynnydd graddol wrth drafod arian. Mae ychydig o ddysgwyr yn defnyddio'r medrau hyn yn siop y coleg ac mewn gweithgareddau menter fel gwerthu wyau o fferm y coleg.

Mae dysgwyr yn datblygu medrau bywyd gwerthfawr o weithgareddau cyfoethogi a chyfleoedd profiad gwaith fel cynorthwyo staff yn y cyfleuster i anifeiliaid bach, a gweithio yn yr ardd lysiau. Datblygant eu medrau annibyniaeth yn effeithiol a dysgant sut i reoli tasgau bob dydd, yn cynnwys sut i lwytho peiriant golchi llestri a sut i baratoi llysiau.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth briodol o ffyrdd iach o fyw. Gwnânt gynnydd effeithiol tuag at dargedau personol i wneud dewisiadau bwyd iach ac i wneud ymarfer corff rheolaidd. Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn sesiynau gweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda ar ddiwedd bob wythnos mewn chwaraeon fel Zumba, nofio a ffitrwydd mewn campfa. Mae ychydig o ddysgwyr llai abl a mwy abl yn cael profiad gwerthfawr drwy hyfforddi gyda chlybiau pêl-droed lleol a chymryd rhan mewn cystadlaethau rhyngwladol.

Mae pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac mae llawer ohonynt yn hyderus i fynd at weithwyr allweddol ac uwch aelodau staff os oes angen cefnogaeth, help neu gyngor arnynt. Mae mwyafrif o ddysgwyr mwy abl yn dangos dealltwriaeth drwyadl o ddiogelwch ar-lein wrth ddefnyddio dyfeisiau a rhaglenni technolegol. Dangosant ymwybyddiaeth addas o beryglon cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu gwersi'n rheolaidd ac mae data presenoldeb yn gyson uchel. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyrraedd gwersi yn brydlon. Lle mae angen i ddysgwyr adael gwersi am resymau personol, maent yn dychwelyd at y dysgu cyn gynted ag y bo'n briodol.

Mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o amgylch y coleg, ac maent yn datblygu'n fwy aeddfed mewn sefyllfaoedd personol. Mae bron pob dysgwr yn ymgysylltu'n dda mewn sesiynau. Maent yn mwynhau eu dysgu ac yn canolbwyntio ar y dasg trwy gydol gweithgareddau.

Mae aelodau o gyngor y coleg yn ymfalchïo mewn cynrychioli eu cyfoedion a dangosant ddiddordeb yn eu rolau. Maent yn hyderus yn eu gallu i ddylanwadu ar faterion yn y coleg ac yn hyderus y bydd eu barnau'n cael ystyriaeth. Dangosant agwedd aeddfed pan roddir rhesymau iddynt pam na fydd yn bosibl rhoi eu syniadau ar waith efallai.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu'u medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn effeithiol. Ymgysylltant yn dda â'r gymuned leol drwy eu gweithgareddau chwaraeon a gwibdeithiau cymdeithasol ar gyfer siopa a hamdden. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan weithgar yng nghymuned y coleg ac maent yn mwynhau partïon a disgos y coleg. Mae lleiafrif o ddysgwyr ar draws y lefelau gallu yn gweithio'n dda â'i gilydd mewn gwersi a chyfranogant yn esmwyth mewn gwaith parau a gwaith grŵp. Mae ychydig o ddysgwyr yn dangos lefel uchel o ystyriaeth, gofal a pharch i'w cyfoedion.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r coleg yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion y dysgwyr yn dda ac yn adeiladu ar eu gwybodaeth a'u medrau blaenorol. Caiff dysgwyr gyfleoedd i ennill cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol dros dair blynedd. Gwna'r coleg ddefnydd da o ystod o strategaethau cyfathrebu i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael eu cynnwys yn llawn yn eu sesiynau.

Rhoddir ffocws priodol ar lythrennedd a rhifedd. Ar draws y diwrnod coleg, caiff dysgwyr lawer o gyfleoedd i ddatblygu'r medrau hyn. Mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod helaeth o asesiadau i osod targedau llythrennedd a rhifedd priodol ar gyfer pob dysgwr.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol sydd wedi'i threfnu'n dda yn briodol i anghenion oedolion ifanc. Mae hyn yn cynnwys addysg rhyw. Mae'r rhaglen hon yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at wella medrau cymdeithasol a medrau bywyd dysgwyr a gwella ymwybyddiaeth o sut i gadw eu hunain yn ddiogel.

Mae'r coleg yn cynllunio cyfleoedd cymhellgar ar gyfer gweithgareddau hamdden yn y gymuned leol. Mae hyn yn cynnwys disgo i bobl ag anableddau, grŵp drama a dawns, a chwarae Boccia, sef gêm â pheli yn gysylltiedig â bowls, mewn canolfan chwaraeon leol.

Ceir ystod eang o leoliadau gwaith o ansawdd da yn y gymuned leol ac ar safle'r coleg. Mae lleoliadau'n cynnwys manwerthu, llety cŵn, arlwyo a garddwriaeth. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr mwy abl yn cael digon o gyfleoedd i ddilyn cymwysterau galwedigaethol penodol er mwyn gwella'u gobaith o gael swydd benodol.

Mae'r coleg yn talu sylw da i anghenion dysgwyr y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt. Mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth ddefnyddiol o gynaliadwyedd drwy weithgareddau fel rheoli coetir, arferion gofalu am anifeiliaid, compostio ac ailgylchu ar y safle.

**Addysgu: Da**

Mae perthnasoedd cefnogol cadarn rhwng pob un o'r tiwtoriaid, staff cymorth a dysgwyr. Gweithia tiwtoriaid a staff cymorth yn dda iawn â'i gilydd fel tîm. Maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i wneud yn siŵr bod pob dysgwyr yn cymryd rhan yn effeithiol yn y sesiynau.

Mae tiwtoriaid yn cynllunio sesiynau diddorol sy'n cynnal diddordeb a brwdfrydedd dysgwyr yn dda iawn. Mae eu cynllunio'n cael ei gysylltu'n ofalus ag asesiadau gwaelodlin ac asesiadau parhaus. Disgwyliant i ddysgwyr wneud eu gorau, maent yn gosod tasgau heriol ac yn rhoi anogaeth a chanmoliaeth dda. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir iawn, yn gosod amcanion clir ac yn rhoi adborth gwerthfawr i ddysgwyr ar eu perfformiad. Caiff staff cymorth eu cynnwys yn llawn yn y cynllunio a

chyfrannant yn dda at y sesiynau. Mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod eang o weithgareddau ac adnoddau, wedi'u teilwra'n aml, i gynnal diddordeb dysgwyr a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y dasg. Gwnânt ddefnydd da o holi i wirio dealltwriaeth dysgwyr. Maent yn rheoli ymddygiad yn fedrus ac yn gwneud trefniadau hyblyg os yw dysgwyr wedi'u cynhyrfu. O ganlyniad, maent yn osgoi gwrthdaro ac mae dysgwyr yn mynd yn ôl yn gyflym at eu gwaith. Mae tiwtoriaid a staff cymorth yn deall yr angen i roi digon o amser i ddysgwyr ymateb i gwestiynau.

Mae'r coleg yn defnyddio ystod o asesiadau effeithiol i nodi galluoedd dysgwyr a'u meysydd angen. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ofalus i grwpio dysgwyr ac ysgrifennu cynlluniau dysgu unigol o ansawdd da, sy'n cynnwys targedau penodol a mesuradwy. Mae dysgwyr o bob gallu yn asesu pa mor dda y maent wedi cwblhau tasgau ac wedi bodloni'u targedau ar ddiwedd pob sesiwn. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar sut y bydd dysgwyr yn penderfynu ar eu camau nesaf mewn dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol a chaiff effaith gadarnhaol ar safonau a lles dysgwyr. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr yn flaenoriaeth uchel. Rhoddir ffocws cadarn ar ddatblygu annibyniaeth dysgwyr ac adnabod eu hangen i gael eu gwerthfawrogi fel oedolion ifanc.

Mae staff yn rhoi cymorth ac arweiniad rhagorol i ddysgwyr sydd wedi'u teilwra'n dda iawn i fodloni'u hanghenion unigol. Mae dysgwyr yn cael defnyddio ystod eang o wasanaethau arbenigol, sy'n cefnogi eu hiechyd a'u lles. Mae tîm therapi'r coleg yn darparu cymorth mewn sesiwn arloesol o ansawdd da ar gyfer dysgwyr unigol a staff. Maent yn adolygu ac addasu'n ofalus holl ddogfennaeth y coleg fel bod pob un o'r dysgwyr, gan gynnwys y rhai â'r anghenion mwyaf cymhleth, yn gallu cael y wybodaeth. O ganlyniad, mae pawb yn cael eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar fywyd y coleg.

Mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol iawn ar waith ar gyfer rheoli a gwella ymddygiad dysgwyr. Caiff y rhain eu cymhwyso'n gyson gan bob un o'r staff ym mhob sesiwn.

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi gwella ei reolaeth o'r grŵp o ddysgwyr â'r ymddygiad mwyaf heriol. Mae staff yn y lleoliad addysg a gofal wedi cael hyfforddiant a chymorth o ansawdd uchel gan reolwyr. O ganlyniad, maent wedi cyflwyno rhaglen fwy strwythuredig ac wedi addasu'r amgylchedd. Mae effaith y gwaith hwn wedi cael ei monitro a'i harfarnu'n ofalus iawn. Mae dysgwyr wedi ymateb yn dda iawn ac mae gostyngiad sylweddol ym mynychder a difrifoldeb digwyddiadau. Mae'r dull strategol a manwl hwn o leihau digwyddiadau yn arfer sy'n arwain y sector.

Mae'r coleg yn nodi anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn ac yn rhoi cymorth ychwanegol gwerthfawr i ddysgwyr. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys defnyddio technoleg fel cyfrifiaduron llechen a defnyddio'r llygad i gyfathrebu.

Mae trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r coleg yn gymuned gynhwysol. Mae'n amgylchedd croesawgar, tawel a diogel. Ceir pwyslais cryf ar barchu eraill ac mae pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal at y cwricwlwm a'r ddarpariaeth. Mae ystod o bolisïau effeithiol i sicrhau cydraddoldeb ac i ddelio ag unrhyw fath o wahaniaethu.

Defnyddir technoleg yn effeithiol iawn ar draws y cwricwlwm, yn enwedig gyda dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth. O ganlyniad, gall pob un ohonynt fanteisio'n hawdd ar y cwricwlwm, mynegi'u hunain a chyfathrebu â staff a'u cyfoedion.

Mae'r adeilad o ansawdd da ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn. Mae safle'r coleg yn cynnig ystod eang o gyfleusterau sydd o fudd i'r dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys anifeiliaid, tai gwydr, gweithdai celf a cherddoriaeth a fferm. Mae adnoddau, yn cynnwys offer TGCh, o ansawdd da ac maent yn bodloni anghenion y dysgwyr yn dda.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer y coleg, ac mae pob un o'r staff yn rhannu'r weledigaeth honno. Mae disgwyliadau uchel gan bob un o'r rheolwyr, ac maent yn cyfleu'r rhain yn dda i'w staff. Ceir cynlluniau a pholisïau cynhwysfawr sy'n canolbwyntio'n dda ar fodloni anghenion dysgwyr.

Yn dilyn y newidiadau diweddar i berchenogaeth, mae gan staff hyder yng nghynlluniau'r cwmni ar gyfer dyfodol y coleg.

Mae strwythur rheoli clir gan y coleg ac mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda. Mae'r pennaeth a'i thîm wedi datblygu ethos tîm cadarn sy'n canolbwyntio'n dda ar wella'r coleg. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn cael gwybodaeth dda iawn am benderfyniadau rheolwyr.

Mae rheolwyr yn gwneud defnydd da o system rheoli perfformiad â strwythur da i nodi ble mae staff yn gweithio'n dda. Maent yn rhoi llawer o gyfleoedd i'r staff hyn rannu'u harfer dda er mwyn gwella deilliannau dysgwyr. Lle nad yw staff yn gweithio gystal, mae rheolwyr yn darparu cymorth priodol. O ganlyniad, mae staff yn gwella'u perfformiad. Mae rheolwyr yn defnyddio'r system rheoli perfformiad yn dda i nodi a chynllunio anghenion hyfforddi unigol a choleg cyfan.

Mae rheolwyr yn cyfarfod â staff yn rheolaidd i drafod gwella'r coleg. Caiff pob un o'r staff eu cynnwys yn llawn a chyfrannant yn dda at y cyfarfodydd hyn. Mae'r cofnodion yn gynhwysfawr ac yn eglur.

Mae dealltwriaeth eithriadol gan y perchenogion o gryfderau'r coleg ac anghenion dysgwyr. Maent yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyd-destun y coleg yng Nghymru. Darparant her a chymorth addas i'r pennaeth a'i thîm rheoli. Cânt eu cynnwys yn llawn wrth fonitro ac arfarnu deilliannau dysgwyr.

Mae'r coleg yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol yn dda iawn. Rhoddir ffocws cadarn ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed.

Mae hyfforddiant da yn cael ei gynnig i bob un o'r staff, yn fewnol a chan ddarparwyr allanol. Mae nifer o staff cymorth yn datblygu'u harfer trwy ddilyn cyrsiau wedi'u hachredu'n allanol.

Mae'r coleg wedi rhoi pob un o'r argymhellion allweddol o ymweliad monitro diwethaf Estyn ar waith yn llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae rheolwyr wedi datblygu ethos cadarn o welliant parhaus, ac mae pob un o'r staff yn rhannu'r ethos hwnnw. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir iawn o gryfderau'r coleg a meysydd i'w datblygu ymhellach. Gweithiant yn dda iawn gyda staff i wneud yn siŵr bod blaenoriaethau'n cael eu cyflawni. Er enghraifft, fe wnaethant nodi'r angen i wella'r rheolaeth ar ymddygiad heriol ar draws y coleg. Mae newidiadau wedi'u rhoi ar waith yn llwyddiannus ac maent wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad dysgwyr.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu o ansawdd da. Mae'n arfarnol ac yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys data perthnasol. Mae'n amlygu'n glir beth yw cryfderau allweddol y coleg a'r meysydd i'w gwella. Cafodd pob aelod o staff a rhieni a gofalwyr eu cynnwys a gwnaethant gyfraniad da at y broses. Cyfrannodd dysgwyr eu barnau trwy gyngor y coleg. Fodd bynnag, ni wnaeth yr adroddiad ddigon o ddefnydd o adborth gan randdeiliaid eraill fel y gwasanaethau cymdeithasol a chyflogwyr.

Mae cyswllt clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ansawdd. Mae'r cynllun yn nodi blaenoriaethau a chamau gweithredu priodol yn glir. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys graddfeydd amser clir a chyfrifoldebau penodol.

Mae'r coleg yn gwella ei ddefnydd o ddata yn raddol er mwyn nodi meysydd i'w gwella. Ar hyn o bryd, mae'r coleg yn casglu ac yn defnyddio data i nodi blaenoriaethau coleg cyfan a pherfformiad unigol. Mae hyn yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn defnyddio data'n ddigon da i arfarnu perfformiad grwpiau o ddysgwyr.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r coleg yn gweithio'n agos ag ystod eang o bartneriaid. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion uwchradd prif ffrwd ac ysgolion arbennig, a'r swyddog cyswllt cymunedol. Hefyd, ceir cysylltiadau agos ag elusennau a chymdeithasau. Mae cysylltiadau cadarn gyda chlybiau chwaraeon lleol hefyd. Mae'r rhain yn cynnig mynediad at hyfforddiant o ansawdd uchel i ddysgwyr.

Mae'r coleg yn cynllunio ystod o fentrau ar y cyd er mwyn ehangu profiad ei ddysgwyr.  Mae'r mentrau hyn yn codi proffil y coleg ac ymwybyddiaeth o faterion anabledd.

Mae partneriaethau ag ysgolion lleol yn gadarn.  Mae disgyblion yn yr ysgolion hyn sydd ag anableddau a/neu anghenion dysgu ychwanegol yn elwa ar allu defnyddio cyfleusterau yng Ngholeg Pengwern, ac mae'r coleg yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol.  Fodd bynnag, nid yw dysgwyr Coleg Pengwern yn elwa o ddefnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgolion hyn yn gyfnewid.

Mae trefniadau pontio i'r coleg yn cael eu rheoli'n dda iawn.  Bydd dysgwyr o lawer o ysgolion yn ymweld â'r coleg er mwyn ymgyfarwyddo â bywyd coleg.  Hefyd, mae staff y coleg yn ymweld ag ysgolion dysgwyr i arsylwi a chofnodi sut maent yn defnyddio'u cwricwlwm.  Mae gan y coleg bartneriaethau cryf â rhieni a gofalwyr.  Cânt eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau ynglŷn ag addysg eu plentyn, a rhoddir gwybodaeth dda iddynt am eu cynnydd.  Mae'r coleg yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn dda i sefydlu cysylltiadau effeithiol rhwng y coleg a'r cartref.  Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r lefelau cymorth uchel a gânt gan y coleg.  Mae'r trefniadau gweithio agos hyn yn sicrhau trosglwyddo'n esmwyth i'r coleg a symud ymlaen o'r coleg.  Mae'r coleg yn trefnu penwythnosau agored arloesol i rieni a gofalwyr plant oed cynradd ac uwchradd sydd ag anableddau a/neu anghenion dysgu ychwanegol.  Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth iddynt o waith y coleg ac yn cynyddu atgyfeiriadau dysgwyr.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan y coleg staff priodol i gyflwyno'r cwricwlwm.  Mae tiwtoriaid a staff cymorth yn cael eu defnyddio'n dda i fodloni anghenion dysgwyr unigol.

Defnyddir cyfleusterau ac adnoddau o ansawdd uchel yn effeithiol i gydweddu â diddordebau a galluoedd pob dysgwr.  Gwna rheolwyr ddefnydd da iawn o gynllun busnes sydd wedi'i gostio'n ofalus i wella amgylchedd y coleg.

Ceir cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda i uwchraddio ardaloedd o'r coleg er mwyn gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Mae safonau darpariaeth a chymorth yn gyson dda, ac mae'r coleg yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu safonau a'u lles.  O ganlyniad, mae'r coleg yn cynnig gwerth am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my college. | 39 | 38<br>97% | 1<br>3% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ngholeg. |
| The college deals well with any bullying. | 36 | 35<br>97% | 1<br>3% | Mae'r coleg yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I have someone to talk to if I am worried. | 39 | 38<br>97% | 1<br>3% | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| The college teaches me how to keep healthy | 39 | 37<br>95% | 2<br>5% | Mae'r coleg yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are plenty of opportunities at college for me to get regular exercise. | 42 | 40<br>95% | 2<br>5% | Mae digonedd o gyfleoedd yn y coleg i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at college | 42 | 40<br>95% | 2<br>5% | Rwy'n gwneud yn dda yn y coleg. |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems. | 40 | 40<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work. | 40 | 33<br>83% | 7<br>18% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Learners behave well and I can get my work done. | 37 | 36<br>97% | 1<br>3% | Mae dysgwyr eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Staff treat all learners fairly and with respect. | 36 | 35<br>97% | 1<br>3% | Mae staff yn trin pob dysgwr yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| The college listens to our views and makes changes we suggest. | 31 | 31<br>100% | 0<br>0% | Mae'r coleg yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility. | 40 | 39<br>98% | 1<br>3% | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| The college helps me to be ready for my next college or to start my working life. | 34 | 31<br>91% | 3<br>9% | Mae'r coleg yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ngholeg nesaf, neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| The staff respect me and my background. | 38 | 37<br>97% | 1<br>3% | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| The college helps me to understand and respect people from other backgrounds | 36 | 34<br>94% | 2<br>6% | Mae'r coleg yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| I was given good advice when choosing my courses | 5 | 4<br>80% | 1<br>20% | Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

| | | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the college | | 23 | | 14<br>61% | 9<br>39% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Rwy'n fodlon â'r coleg yn gyffredinol. |
| My child likes the college | | 24 | | 18<br>78% | 5<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r coleg. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the college | | 24 | | 18<br>75% | 6<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y coleg. |
| My child is making good progress in college | | 22 | | 15<br>71% | 6<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y coleg. |
| Learners behave well in college | | 22 | | 5<br>31% | 11<br>69% | 0<br>0% | 0<br>0% | 6 | | Mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda yn y coleg. |
| Teaching is good. | | 23 | | 10<br>53% | 9<br>47% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | | 24 | | 11<br>52% | 10<br>48% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| Staff treat all children fairly and with respect | | 23 | | 16<br>76% | 5<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise | | 22 | | 10<br>48% | 11<br>52% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| My child is safe at college | | 24 | | 14<br>64% | 8<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y coleg. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs | | 23 | | 11<br>52% | 10<br>48% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress | | 22 | | 13<br>59% | 7<br>32% | 2<br>9% | 0<br>0% | 0 | | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| I feel comfortable about approaching the college with questions, suggestions or a problem | | 23 | | 14<br>61% | 9<br>39% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r coleg, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| I understand the college's procedure for dealing with complaints | | 24 | | 13<br>65% | 5<br>25% | 2<br>10% | 0<br>0% | 4 | | Rwy'n deall trefn y coleg ar gyfer delio â chwynion. |
| The college helps my child to become more mature and take on responsibility | | 23 | | 17<br>77% | 5<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | | Mae'r coleg yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| My child is well prepared for moving on the next college or work | | 17 | | 6<br>50% | 6<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 5 | | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r coleg nesaf neu waith. |

| | | Number of responses Nifer o ymatebion | | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| There is a good range of activities including trips or visits | | 22 | | 9<br>45% | 11<br>55% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| The school is well run. | | 21 | | 14<br>70% | 6<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | | Mae'r coleg yn cael ei rhedeg yn dda. |

# Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Claire Yardley | Arolygydd Cofnodol |
| Gill Sims | Arolygydd Tîm |
| Michael Henderson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Kimberley Mortimer | Enwebai |